**ATODIAD 3**

**Cynlluniau arbedion effeithlonrwydd strategol**

| **Teitl** | **Swm £** | **Sut na fydd yn effeithio canlyniadau i drigolion** |
|---|---|---|
| Arbedion Cludiant Ardal Arfon | £267,000 | Yn gyson gyda'r cynlluniau sydd wedi'u gweithredu yn ardaloedd Dwyfor a Meirionydd mae'r arbedion dan sylw yn deillio o waith wnaed (yn ardal Arfon) i adolygu ac ail-dendro cytundebau bws lleol a chludiant dysgwyr er mwyn ffurfioli a chysoni'r trefniadau ar draws y Sir. Mae hyn wedi sicrhau fod y ddarpariaeth yn cyfateb yn well i'r angen, ac ambell dro'n golygu ateb y galw mewn ffordd wahanol, e.e. datblygu gwasanaethau "ar alw" yn lle gwasanaethau bws traddodiadol. |
| Arbedion Caffael Trawsadrannol | £118,000 | Mae'r arbedion dan sylw yn deillio o gyfuniad o wahanol dechnegau caffael megis, ail-negodi cytundebau, tendro, a lleihau galw ayyb. |
| Lleihau absenoldebau salwch | £50,000 | Nod y cynllun yma oedd i leihau absenoldebau salwch staff yng ngwasanaethau rheng flaen y Cyngor (e.e. gofal preswyl) fydda yn ei dro yn lleihau'r angen i gyflogi staff llanw. O safbwynt defnyddwyr gwasanaeth nid oes effaith gan fod y Cyngor yn parhau i ddarparu'r r'un gwasanaeth ond yn defnyddio llai o staff llanw. |
| Arbedion Technoleg Gynorthwyol (Teleofal) | £217,000 | Gyda'r nôd o gefnogi pobl fregus i fyw yn eu cartrefi gyda'r gefnogaeth maent ei angen mae'r Cyngor yn darparu technoleg gynorthwyol (teleofal). Drwy friff frydio'r dechnoleg mewn achosion addas mae modd darparu cefnogaeth mewn ffordd amgen er enghraifft, defnyddir defnydd o synwyryddion sy'n cynnig monitro parhaus, awtomatig a phell o anghenion gofal unigolion er mwyn sbarduno ymateb dynol i |

| **Teitl** | **Swm £** | **Sut na fydd yn effeithio canlyniadau i drigolion** |
|---|---|---|
| | | sefyllfa, neu i ddiffodd offer er mwyn osgoi perygl. |
| Arbedion drwy wneud defnydd mwy effeithiol o gerbydau fflyd y Cyngor | £130,000 | Diben y cynllun hwn yw gwneud gwell defnydd o gerbydau fflyd i ddarparu'r un lefel o wasanaeth. Gwireddir yr arbedion hyn drwy dargedu cerbydau sy’n gwneud milltiredd isel a newid arferion gweithio. |
| Ail-ddylunio trefniadau argraffu’r Cyngor | £78,000 | Mae’r arbedion dan sylw yn deillio o gyfuniad o ail-ddylunio trefniadau a gwell defnydd o dechnoleg ar gyfer dogfennau mewnol. Ni ragwelir unrhyw effaith ar drigolion. |
| **CYFANSWM** | **£860,000** | |

## CYNNAL ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

**Cynllun Ail-fodelu Cludiant Cyhoeddus ac Addysg – Ardal Arfon**

**1) AWDUR (ON) YR ASESIAD**

| |
|---|
| Ceri Hughes Thomas – Arweinydd Tîm Contractau (Dros dro) |

**2) PARTNERIAID**

**Cam 1:**
Uned Cludiant Integredig ar ran yr Adran Rheoleiddio a'r Adran Addysg

**Cam 2:**
Uned Cludiant Integredig ar ran yr Adran Rheoleiddio a'r Adran Addysg

**3) DYDDIAD GORFFEN YR ASESIAD**

| |
|---|
| |

**4) NOD AC AMCANION Y POLISI / GWASANAETH / SWYDDOGAETH**

**Cam 1 –**
Mae Cam 1 yn gyfle i ddod i adnabod a thacluso'r ddarpariaeth bresennol. Mae hyn yn digwydd yng nghyd-destun toriadau mewn cymhorthdal cludiant gan Lywodraeth Cymru.
Cyfuno a ffurfioli cytundebau "de minimis" y sir a gostwng y nifer o seddi gweigion ar fysiau ysgolion yn unol â pholisi cyfredol yr adran addysg..
Cysoni a thacluso trefniadau hanesyddol, gan sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'n hadnoddau.
Nid yw'r broses yn Arfon wedi arwain at unrhyw doriadau sylweddol i wasanaethau yn nhermau amlder na nifer y bysiau ond mae cydymffurfio a pholisi cyfredol yr adran addysg yn golygu nad yw dysgwyr o ardal Maesgeirchen yn gymwys i dderbyn cludiant am ddim i leoliad addysg bellach.

**Cam 2 -** Defnyddio'r waelodlin trefniadau yn deillio o waith Cam 1 i adnabod blaenoriaethau a darparu rhwydwaith cludiant cyhoeddus pwrpasol, addas ar draws y Sir sy'n cynnig gwerth am arian i'r trethdalwr. Y dull a ddefnyddir ar gyfer cyflawni Cam 2 fydd 'matrics sgorio' a fydd yn rhoi ystyriaeth i wahanol agweddau, fel - pris fesul pen am gyflawni'r siwrnai, nifer o deithwyr a ddefnyddir y gwasanaeth.

## 5) CYFRANOGIAD AC YMGYNGHORIAD

**Cam 1:**
Hyd yma wedi ymgymryd â'r gwaith yn Arfon, sydd yn ddigon ffodus o gael cystadleuaeth fasnachol yn yr ardal, ni wnaed unrhyw newid sylweddol i'r ddarpariaeth y tu hwnt i fân addasiadau i'r amserlenni. Mân newidiadau na fydd yn amharu ar fynediad i wasanaethau hanfodol megis apwyntiadau ysbyty neu feddygfa.

Mae gweithredu Cam 2 yn fwy tebygol o arwain at newidiadau sylweddol fydd angen ymgysylltu ehangach.

**Cam 2:**
Fel rhan o'r gwaith datblygol, bwriedir adnabod angen i ymgysylltu a rhai nodweddion penodol e.e. Grwpiau Mynediad, Grŵp Craidd Cydraddoldeb Anabledd, Fforwm Pobl Hyn ayyb

## 6) TYSTIOLAETH SYDD AR GAEL

Nid yw gwaith Cam 1 yn cynnig unrhyw dystiolaeth benodol ond yn hytrach yn creu dealltwriaeth o'r trefniadau presennol a gosod gwaelodlin ar gyfer darparu gwasanaeth fydd yn gyd-destun i gynigion Cam 2. Bydd gwaith monitro'r gwasanaethau a sefydlir yn bwydo'r matrics asesu gaiff ei ddefnyddio yng Ngham 2.

Bydd unrhyw sylwadau'n codi o'r ymgysylltu hefyd yn bwydo i'r cynigion terfynol yn deillio o Gam 2 ble mae'r dystiolaeth isod ar gael;

- Gwefan nomis – Gwasanaeth a ddarperir gan Swyddfa Ystadegau Gwladol.
- Arolwg Bysiau.
- Arbenigedd yr Uned Gludiant Integredig. Ffigyrau refeniw a teithwyr a ddarparwyd gan y gweithredwyr.
- Lefel cwynion am ddiffyg / lefel gwasanaeth

## 7) BYLCHAU MEWN TYSTIOLAETH

Mae gweithredu Cam 1 wedi ei lunio i alluogi gwaith monitro manwl o'r gwasanaethau a hyn fydd y dystiolaeth fydd yn sail i gamau asesu a gweithredu yng Ngham 2. Ni ragwelir y bydd bylchau tystiolaeth sylweddol ond os daw rhai i'r amlwg, bydd gwaith yn cael ei gomisiynu i'w lenwi.

**8) PERTHNASEDD AC EFFAITH**

**8a)**

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | Perthnasedd | Yr effaith wirioneddol neu debygol |
|---|---|---|
| **Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Tebygol o fod yn berthnasol i Gam 2 yn unig | Angen sicrhau nad yw unrhyw drefniadau neu ddarpariaeth a roir yn ei le yng Ngham 2 yn camwahaniaethu yn erbyn unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Tebygol o fod yn berthnasol i Gam 2 yn unig | Anelir i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn gwneud y gorau o'r cyfle i sicrhau cerbydau a thrywydd hygyrch ac yn ymateb i anghenion gwahanol grwpiau |
| **Meithrin perthnasau da** | Tebygol o fod yn berthnasol i Gam 2 yn unig | Mae perthynas dda gyda darparwyr a defnyddwyr y gwasanaethau eisoes yn bodoli. Bydd unrhyw waith ymgysylltu ar Gam 2 yn gyfle i gryfhau hyn. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y ddarpariaeth cludiant yn y Sir yn hyrwyddo cyfleoedd cymdeithasol i grwpiau bregus |

**8b)**

| **Nodweddion** | **Perthnasedd** | **Yr effaith wirioneddol neu debygol** |
|---|---|---|
| **Hil** | Dim | Dim, ond perthnasedd posib yng Ngham 2 |
| **Anabledd** | Yn berthnasol i Gam 1 a Cham 2 | Bydd anghenion unigolion ag anableddau yn cael eu hystyried wrth gomisiynu gwasanaethau trwy gontractau unigol. Byddwn yn ymgysylltu’n uniongyrchol â’r grŵp fel rhan o Gam 2. |
| **Rhyw** | Dim | Dim, ond perthnasedd posib yng Ngham 2 |
| **Ailbennu rhywedd** | Dim | Dim, ond perthnasedd posib yng Ngham 2 |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Dim | Dim, ond perthnasedd posib yng Ngham 2 |
| **Crefydd neu gred** | Dim | Dim, ond perthnasedd posib yng Ngham 2 |
| **Yr iaith Gymraeg** | Yn berthnasol i Gam 1 a Cham 2 | Mae’r contractau a osodir gan y Cyngor yn nodi'r angen i ddarparu gwybodaeth yn ddwyieithog. |
| **Oedran** | Yn berthnasol i Gam 1 a Cham 2 | Bydd anghenion teithwyr oedrannus yn cael eu hystyried wrth gomisiynu gwasanaethau ar sail y contractau unigol. Byddwn yn ymgysylltu’n uniongyrchol â’r grŵp fel rhan o Gam 2. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Yn berthnasol i Gam 1 a Cham 2 | Bydd anghenion mamau beichiog a theuluoedd â phlant ifanc yn cael eu hystyried wrth gomisiynu gwasanaethau ar sail y contractau unigol. Byddwn yn ymgysylltu’n uniongyrchol â’r grŵp fel rhan o Gam 2. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim | Dim, ond perthnasedd posib yng Ngham 2 |

**9) MYND I'R AFAEL A'R EFFAITH**

| | |
|---|---|
| a) | **Nodwch unrhyw effaith posib o safbwynt cydraddoldeb**<br><br>Ddim yn rhagweld ar hyn o bryd unrhyw effaith ynghlwm a Cham 1.<br><br>Bydd angen asesu'r goblygiadau cydraddoldeb fel rhan o Gam 2. |
| b) | **Pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma?**<br><br>Bydd hyn yn dibynnu ar y cynigion a'r opsiynau a ddatblygir. |
| c) | **A oes angen ail-ystyried y cynllun?**<br><br>Nag oes- dim effeithiau sylweddol wedi'u hadnabod hyd yma |

**CYNNAL ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB TELEOFAL**

## 1) AWDUR (ON) YR ASESIAD

Dona Griffiths

## 2) PARTNERIAID

Galw Gofal (sefydliad partner)
Gofal a Thrwsio (sefydliad partner)
Staff rheng flaen
Defnyddwyr Gwasanaeth
Iechyd

## 3) DYDDIAD GORFFEN YR ASESIAD

1/4/2015

## 4) NOD AC AMCANION Y POLISI / GWASANAETH / SWYDDOGAETH

Gyda'r nod o gefnogi pobl fregus i fyw yn eu cartrefi drwy reoli risgiau sydd yn eu hwynebu, mae'r Cyngor yn darparu offer technoleg gynorthwyol (teleofal). Drwy friff frydio'r dechnoleg mewn achosion addas mae modd darparu cefnogaeth mewn ffordd amgen er enghraifft, defnydd o synwyryddion sy'n cynnig monitro parhaus er mwyn sbarduno ymateb dynol i sefyllfa, neu i ddiffodd offer er mwyn osgoi perygl. Mae defnyddio technoleg gynorthwyol yn gallu hybu annibyniaeth yr unigolyn a lleihau dibyniaeth ar y gwasanaethau cymdeithasol.

Drwy gyflwyno technoleg gynorthwyol mewn achosion addas gellir lleihau'r, neu gael gwared â'r, angen am ofalydd gofal cartref os oes posib darparu offer technoleg gynorthwyol sydd yn cwrdd â'r angen o dan sylw, er enghraifft: Yn hytrach na gofalydd yn galw mewn i gartref cleient gellir darparu offer ayyb …..(e.e. os ydy unigolyn yn dueddol o gael codwm, peidio â darparu gwasanaeth goruchwyliaeth iddo i'w fonitro tra yn y cartref ar ei ben ei hun ond, yn hytrach, darparu offer a fydd o gymorth i osgoi codwm yn gyfan gwbl neu ganfodydd codwm a fydd yn adnabod pan fo'r unigolyn yn cael codwm ac yn galw am gymorth yn syth).

## 5) CYFRANOGIAD AC YMGYNGHORIAD

Mae gwaith ymgynghori a’r cyd-drefnwyr gofal wedi dangos bod posib lleihau'r nifer o oriau gofal cartref sydd yn cael eu darparu mewn ambell i achos drwy gyflwyno technoleg gynorthwyol. Mae’r cyd-drefnwyr gofal yn cofnodi ar bob archeb technoleg gynorthwyol os oes unrhyw leihad i’r nifer o oriau o ofal cartref fydd yn cael ei ddarparu oherwydd cyflwyno’r dechnoleg. Mae’r gwaith yma yn dangos bod arbediad yn cael ei wneud drwy gyflwyno technoleg.

## 6) TYSTIOLAETH SYDD AR GAEL

Y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y “**Ddeddf**”)
Mae’r Ddeddf yn dod i rym yn 2016. Mae’r Ddeddf yn adrodd bod yna bwysigrwydd hyrwyddo annibyniaeth yr oedolyn pan fo bosib (cymal 6(3)(b)). Mae’r Ddeddf hefyd yn dweud bod angen i Awdurdod Lleol ddarparu gwasanaeth ataliol a fydd yn galluogi pobl i fyw eu bywydau mewn ffordd mor annibynnol â phosibl cymal 15(2)(1)). Mae’r Ddeddf yn adrodd bod posib defnyddio cymhorthion ac addasiadau ar gyfer y pwrpasau uchod (cymal 32(2)(h). Mae defnyddio technoleg gynorthwyol felly yn cwrdd â’r gofynion sydd yn cael eu gosod arnom fel Llywodraeth Leol o dan y Ddeddf.

Sylwadau Staff
Y cyd-drefnwyr gofal sydd yn adrodd ar y lleihad o oriau gofal cartref sydd yn cael eu darparu drwy ddefnyddio technoleg gynorthwyol.

Ymarfer Da
Mae nifer iawn o achosion sydd yn defnyddio technoleg gynorthwyol yn dangos ymarfer da. Er enghraifft os yw defnyddiwr gwasanaeth yn crwydro yn ystod y nos, mae darparu synhwyrydd gadael eiddo yn gadael i ofalydd sydd yn byw yn yr eiddo neu'r ganolfan gyswllt wybod os yw drws eiddo yn cael ei agor yn ystod y nos. Bydd y gofalydd yn gallu ymateb yn syth, neu bydd y ganolfan gyswllt yn gallu siarad â’r defnyddiwr gwasanaeth i’w berswadio i beidio â gadael yr eiddo neu alw aelod o’r teulu neu’r gwasanaethau brys os yw’r person wedi mynd.

Ymgynghori â’r Defnyddwyr Gwasanaeth
Mae Cynlluniau Comisiynu'r Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant wedi cynnwys ymgynghori â nifer o Ddefnyddwyr Gwasanaeth y Gwasanaeth Oedolion a’r Gwasanaeth Anawsterau Dysgu. ‘Roedd y gwaith ymgynghori yma yn edrych ar yr holl Wasanaethau sydd yn cael eu darparu. Nid oedd yna sylwadau am Dechnoleg Gynorthwyol na’r defnydd ohono wedi eu codi gan y Defnyddwyr Gwasanaeth.

## 8) PERTHNASEDD AC EFFAITH

**8a)**

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | Perthnasedd | Yr effaith wirioneddol neu debygol |
|---|---|---|
| **Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Oes | Bydd gwasanaeth technegol cynorthwyol yn sicrhau cysondeb o ran gwasanaethau i bobol. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Oes | Ni fydd y cynllun yn cael effaith ar gyfleoedd cyfartal a bydd y drefn newydd yn parhau i gefnogi a hyrwyddo cyfleoedd cyfartal. |
| **Meithrin perthnasau da** | Oes | Byddwn yn parhau i sicrhau adolygiadau o offer technoleg gynorthwyol gyda defnyddwyr mewn rhai achosion mewn tîm aml disgyblaethol. |

**8b)**

| **Nodweddion** | **Perthnasedd** | **Yr effaith wirioneddol neu debygol** |
|---|---|---|
| **Hil** | Dim effaith penodol i’r garfan yma | Ddim yn rhagweld unrhyw effaith |
| **Anabledd** | Oes | O ganlyniad i gynyddu’r defnydd o dechnoleg gynorthwyol mewn achosion anawsterau dysgu efallai y bydd effaith ar y nifer o oriau o wasanaeth cefnogol sydd yn cael eu darparu i’r unigolion sydd yn defnyddio’r dechnoleg. Fodd bynnag, rhaid pwysleisio na fydd unrhyw anghenion gofal unigolyn na fyddai’n cael ei ddiwallu. |
| **Rhyw** | Sgil effaith | Mae yna ganran uchel iawn o’r gweithlu sydd yn darparu gofal cartref yn fenywod. Gall darparu technoleg gynorthwyol leihau'r nifer o ofal cartref sydd yn cael ei ddarparu ac felly efallai y bydd sgil effaith ar y swyddi yma. |
| **Ailbennu rhywedd** | Dim effaith penodol i’r garfan yma | Ddim yn rhagweld unrhyw effaith |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Dim effaith penodol i’r garfan yma | Ddim yn rhagweld unrhyw effaith |
| **Crefydd neu gred** | Dim effaith penodol i’r garfan yma | Ddim yn rhagweld unrhyw effaith |
| **Yr iaith Gymraeg** | Effaith posib yma | Sylwad- mae’r gwasanaeth sydd yn cael ei ddarparu yn ddwyieithog felly nid oes gwahaniaethu ar sail iaith yn digwydd. Mae 32 allan o’r 34 o swyddogion sydd yn ymateb i atlwaday yn y ganolfan alw yn siarad cymraeg. Mae sawl siaradwr cymraeg yn gweithio yn y ganolfal alw ar unrhyw bryd. |
| **Oedran** | Oes | O ganlyniad i gynyddu’r defnydd o dechnoleg gynorthwyol mewn achosion pobl hŷn efallai y bydd effaith ar y nifer o oriau o wasanaeth gofal cartref sydd yn cael eu darparu i’r unigolion sydd yn defnyddio’r dechnoleg. Fodd bynnag, rhaid pwysleisio na fydd unrhyw anghenion gofal unigolyn na fyddai’n cael ei ddiwallu. |

| Nodweddion | Perthnasedd | Yr effaith wirioneddol neu debygol |
|---|---|---|
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim effaith penodol i'r garfan yma | |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim effaith penodol i'r garfan yma | |

**9) MYND I'R AFAEL A'R EFFAITH**

| | |
|---|---|
| **a)** | **Nodwch unrhyw effaith posib o safbwynt cydraddoldeb**<br><br>Effaith wedi nodi uchod yn cael effaith gadarnhaol ar hybu annibyniaeth unigolion sydd gydag anawsterau dysgu, anabledd corf a phobl hŷn. |
| **b)** | **Pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma?**<br><br>Bydd adolygu'r dechnoleg gynorthwyol yn digwydd o fewn trefniadau adolygu pecynnau gan weithwyr cymdeithasol. |
| **c)** | **A oes angen ail-ystyried y cynllun?**<br><br>Nagoes |